


Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol

# Cylchlythyr Tiwtoriaid

Hydref 2019

# Croeso

**Croeso i rifyn mis Hydref o'r cylchlythyr i diwtoriaid.**

Mae'r tymor newydd wedi cychwyn, ac mae'n llawn prysurdeb!

Gydag Academi yn anelu at ddatblygu sgiliau'r gweithlu Dysgu Cymraeg, yr Adroddiad Blynyddol ar fin cael ei gyhoeddi, a chyrsiau newydd ar gael ledled Cymru, dyn ni'n gyffrous i gychwyn ar flwyddyn academaidd arall.

Fel tiwtoriaid, dych chi'n ymwybodol o bwysigrwydd y gwaith cefnogi dysgwyr, a rhoi cyfle i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth.

Bydd wythnos 12-18 Hydref yn wythnos o ddathlu dysgu Cymraeg ar Radio Cymru. Bydd pob math o raglenni, cyfweliadau ac eitemau diddorol am ddysgwyr ar y radio drwy gydol yr wythnos honno. Mae 'Sianel Dysgu Cymraeg' newydd hefyd wedi ei lansio gan S4C gyda rhaglenni cyffrous i ddysgwyr o bob lefel.

Mae eich gwaith chi fel tiwtoriaid yn cyfrannu'n helaeth at ddenu, meithrin a chreu siaradwyr Cymraeg. Mae croeso i chi gysylltu â ni ar marchnata@dysgucymraeg.cymru neu ffoniwch 0300 3234324 os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau.

**Hawys Roberts**
Prif Swyddog Cyfathrebu y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

# Dathlu Dysgu Cymraeg gyda Radio Cymru

Ddydd Sadwrn, 12 Hydref, bydd BBC Radio Cymru yn dechrau wythnos arbennig o raglenni ac eitemau sy'n Dathlu Dysgu Cymraeg.  Ymhlith uchafbwyntiau'r wythnos, bydd:

**Bwletin Newyddion** i ddysgwyr bob nos am 8pm.

Criw o ddysgwyr yn cymryd yr awenau bob prynhawn ar raglen **Ifan Jones Evans**.

Penodau newydd o **Hanes yr Iaith** gan y prifardd Ifor ap Glyn yn trafod rhai o'r geiriau sydd wedi dod i'r brig ym mhôl 'Hoff Air' Cymraeg rhaglen **Aled Hughes.**

**Wynne Evans: O Gaerfyrddin i Go Compare** - podlediad newydd i ddysgwyr gyda'r cyflwynydd a'r dysgwr Cymraeg.

Y ddysgwraig Siri Widgel, sy'n wreiddiol o Norwy, yn westai ar raglen **Beti a'i Phobl**.

Bydd modd gwrando yn ôl ar unrhyw raglen drwy ddefnyddio ap ***BBC Sounds***.  Dilynwch #DathluDysgu a #LearnCymraeg ar Twitter.

# Adroddiad Blynyddol

Bydd y Ganolfan yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2018-2019 ar 30 Hydref.

# Adnoddau

Erbyn hyn, mae tiwtoriaid ledled Cymru'n defnyddio'r cyrsiau cenedlaethol newydd ar lefel Mynediad, Sylfaen, Uwch 1, ac Uwch 2. Rydyn ni'n parhau i fireinio Sylfaen ac Uwch 2 yn barod i'w cyhoeddi'n llawn felly cysylltwch â Helen Prosser os oes gennych unrhyw awgrymiadau – helen.prosser@dysgucymraeg.cymru. Cofiwch fod y Canllawiau i gyd ar ein Safle Rhyngweithiol https://dysgucymraeg.cymru/tiwtoriaid/canllawiau-tiwtoriaid/

# Gwersi Cyfoes



*Y cyflwynydd radio Aled Hughes sydd wedi recordio cyfweliad ar gyfer un o'n gwersi cyfoes.*

Dyma fanylion ein gwersi cyfoes eleni. Byddan nhw ar gael ar y Safle Rhyngweithiol. Maen nhw'n addas ar gyfer cyrsiau Uwch a Hyfedredd:

Wythnos 16 Medi – Radio Cymru
Wythnos 25 Tachwedd – Busnesau Cymreig
Wythnos 13 Ionawr – 'Bang' (Bydd cyfres newydd ar S4C)
Wythnos 17 Chwefror – 'Tylwyth' (Drama newydd gan y Theatr Genedlaethol)
Wythnos 1 Mehefin – Tregaron

# Sianel Dysgu Cymraeg

Mae S4C wedi lansio sianel ar-lein newydd sy'n gartref i lu o raglenni sy wedi'u dewis yn arbennig ar gyfer pobl sy'n dysgu Cymraeg. Mae'r Sianel Dysgu Cymraeg yn rhan o wasanaeth 'S4C Clic', gwasanaeth ar-alw S4C. Mae cyfresi poblogaidd o'r archif ar gael, yn ogystal ag arlwy mwy diweddar; mae'r rhaglenni wedi'u dewis gyda chymorth y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Mae S4C eisoes yn darlledu rhaglenni addas ar gyfer dysgwyr bob bore dydd Sul. Mae pytiau digidol hefyd ar gael i ddechreuwyr ac mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer cyfres wreiddiol, newydd am ddysgwyr, i'w darlledu yn y Gwanwyn.

Mae croeso i ddysgwyr a thiwtoriaid Cymraeg gysylltu ag awgrymiadau ar gyfer rhaglenni poblogaidd eraill i'w cynnwys ar y sianel: swyddfa@dysgucymraeg.cymru



# Cynhadledd

Bydd y gynhadledd genedlaethol yn cael ei chynnal ar 22 Mehefin ym Mhrifysgol Aberystwyth. Bydd mwy o fanylion i ddilyn.

Academi

Datblygu sgiliau'r gweithlu
Dysgu Cymraeg

Mae 'Academi', cynllun y Ganolfan i ddatblygu sgiliau'r gweithlu Dysgu Cymraeg, bellach yn weithredol.  Sefydlwyd pwyllgor i lywio'r cynllun, ac mae Catrin Lloyd, un o diwtoriaid Dysgu Cymraeg Ceredigion – Powys – Sir Gâr ymhlith yr aelodau.
Bydd y cynllun yn cynnwys:

- Rhaglen o hyfforddiant wyneb-yn-wyneb
- Sesiynau hyfforddiant ar-lein

Bydd cartref ar-lein newydd yn cael ei greu i'r cynllun ar y Safle Rhyngweithiol; bydd mwy o fanylion yn cael eu cyhoeddi maes o law.  Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu gwestiynau, mae croeso i chi ebostio academi@dysgucymraeg.cymru

# Cylchlythyr Nant Gwrtheyrn



Cliciwch yma ar gyfer tanysgrifio i gylchlythyr Nant Gwrtheyrn

Mae hefyd adran newyddion ar wefan Nant Gwrtheyrn os hoffech wybod mwy.



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol

# Cylchlythyr Tiwtoriaid

Chwefror 2020

# Croeso

**Croeso i rifyn mis Chwefror o'r cylchlythyr i diwtoriaid.**

Gyda gŵyl genedlaethol i ddysgwyr, Ar Lafar, ar y gweill fis Ebrill, cystadleuaeth ffotograffiaeth newydd i ddysgwyr, cwrslyfrau ac adnoddau newydd, mae 2020 yn mynd i fod yn flwyddyn brysur!

Llongyfarchiadau enfawr i Philippa Gibson, sy'n diwtor gyda Dysgu Cymraeg Ceredigion-Powys-Sir Gâr, am ddod i'r brig yng Ngwobrau Tiwtor Oedolion Ysbrydoli! y Sefydliad Dysgu a Gwaith. Enillodd Philippa y wobr am y tiwtor Dysgu Cymraeg gorau. 'Dyn ni'n ymfalchïo'n fawr yn ei llwyddiant.

Fel tiwtoriaid, dych chi'n ymwybodol o bwysigrwydd y gwaith cefnogi dysgwyr, a rhoi cyfle i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth.

Mae gŵyl Ar Lafar, a fydd yn cael ei chynnal ar 25 Ebrill, yn gyfle i ddysgwyr o bob rhan o Gymru i ddod at ei gilydd i fwynhau trysorau a gweithgareddau arbennig ar safleoedd yr Amgueddfa Genedlaethol a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Cadwch lygad am yr amserlenni a fydd yn ymddangos ar ein Safle maes o law.

Braf hefyd yw medru datblygu adnoddau newydd – rhai o'r rheiny ar gyfer ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

Mae eich gwaith chi fel tiwtoriaid yn cyfrannu'n helaeth at ddenu, meithrin a chreu siaradwyr Cymraeg. Mae croeso i chi gysylltu â ni ar marchnata@dysgucymraeg.cymru neu ffoniwch 0300 3234324 os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau.

**Hawys Roberts**
Prif Swyddog Cyfathrebu y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

# Llongyfarchiadau Philippa!




*O’r chwith i’r dde: Helen Prosser, Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol; Philippa Gibson; Nia Parry, cyflwynydd y seremoni wobrwyo*

Mae Philippa Gibson wedi dod i’r brig yng Ngwobrau Tiwtor Oedolion Ysbrydoli! y Sefydliad Dysgu a Gwaith. Enillodd Philippa y wobr am y Tiwtor Dysgu Cymraeg gorau, gyda’r beirniaid yn canmol ei llwyddiant yn dod â dysgwyr a siaradwyr Cymraeg at ei gilydd yn y gymuned. Mae Philippa yn diwtor gyda Dysgu Cymraeg Ceredigion – Powys – Sir Gâr, un o ddarparwyr cwrs y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Meddai Philippa: “Wedi dysgu Cymraeg yn oedolyn, dw i’n cael boddhad o ddysgu’r iaith i eraill a’u gweld yn camu ymlaen i ddod yn rhan o’r gymdeithas Gymraeg leol.”

# Cystadleuaeth i ddysgwyr

Dyma gystadleuaeth ffotograffiaeth newydd i ddysgwyr. Mae croeso i unigolion gyflwyno delweddau o dan y thema **Fy Nghymru i** drwy anfon ffotograff at marchnata@dysgucymraeg.cymru. Gallwch dynnu'r llun ar eich ffôn symudol neu unrhyw gamera. Bydd yr holl gynigion yn cael eu dyfarnu gan y ffotograffydd o Benarth, Nick Treharne, a William Troughton sydd â chyfrifoldeb am gasgliad ffotograffiaeth y Llyfrgell Genedlaethol.

Ffotograffydd newyddiadurol a llawrydd profiadol yw Nick Treharne. Wrth deithio hyd a lled Cymru, fel rhan o'i waith a thrwy anturiaethau personol (ar feic modur gan amlaf) ysgogwyd Nick
Treharne i ddogfennu cymunedau, tirwedd a diwylliant Cymru ar ffurf prosiect arbennig – **20:20 Vision: Portread o Gymru**. Bydd ffrwyth gwaith y prosiect i'w weld mewn arddangosfa arbennig yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Bydd y ddelwedd fuddugol yn cael ei fframio a'i chynnwys yng nghasgliad ffotograffau Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ac yn cael ei harddangos yn gyhoeddus yn ystod yr haf.

Dylai pob cais ein cyrraedd erbyn dydd Gwener, 17 Ebrill. Caiff yr enillydd ei wahodd i'r cyhoeddiad swyddogol a fydd yn digwydd yn ystod gŵyl Ar Lafar yn y Llyfrgell Genedlaethol, ddydd Sadwrn, 25 Ebrill, i dderbyn gwobr.




***Llun: Nick Treharne***
*Geraint Thomas, enillydd y Tour de France, yn cael ei groesawu adref i Gaerdydd wrth iddo deithio i lawr Heol Eglwys Fair yn ei grys melyn. (09.08.18).*

# Hwyl yng ngŵyl Ar Lafar

Dyma gyfle i chi a'ch dysgwyr fwynhau hanes a diwylliant Cymru, cwrdd â dysgwyr a thiwtoriaid eraill a mwynhau siarad Cymraeg yn yr ŵyl genedlaethol i ddysgwyr, Ar Lafar, ar **25 Ebrill.** Mae'r ŵyl rad ac am ddim yn cael ei chynnal ar bedwar safle: Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan; Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis; Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth ac Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre. Bydd cyfle i gymryd rhan mewn llu o weithgareddau, gan gynnwys crefftau, cwisiau a theithiau tu ôl i'r llenni.  Mae croeso cynnes i bawb – a wnewch chi hyrwyddo'r digwyddiad i'ch dysgwyr os gwelwch yn dda.



# Y Pod.cymru

Ewch i wefan ypod.cymru i weld yr holl bodlediadau Cymraeg mewn un lle.

YPOD

# Adnoddau newydd

Mae’r tîm Dysgu ac Addysgu bellach wedi dechrau datblygu dau adnodd newydd: cwrs blasu wedi’i anelu’n benodol at ffoaduriaid a cheiswyr lloches, ac atodiadau Cymraeg yn y Cartref i gyd-fynd â’r Cwrs Mynediad. Bydd atodiadau Cymraeg Gwaith sy’n cyd-fynd â’r cwrs Mynediad ar gael ar y Safle Rhyngweithiol yn fuan.
Cysylltwch am ragor o fanylion.



# Cwrslyfrau Dysgu Cymraeg

Mae’r llyfrau Sylfaen ac Uwch 2 bellach ar werth mewn siopau llyfrau.
Mae hefyd yn bosib eu prynu ar www.gwales.com. Mae’r Canllawiau newydd ar y Safle Rhyngweithiol.

# Holiadur Dweud eich Dweud



Dweud eich Dweud yw'r holiadur barn cenedlaethol i weld sut mae'n dysgwyr ni'n teimlo am ein darpariaeth. Cafwyd 3,861 o ymatebion yn 2019 ac roedd y canlyniadau'n gadarnhaol dros ben, gyda **95%** yn dweud eu bod yn mwynhau dysgu Cymraeg ac **85%** yn hyderus wrth siarad yr iaith wrth ddilyn cwrs.

Mae holiadur 2020 ar agor nawr ac mae cwrs wythnos yn Nant Gwrtheyrn yn anogaeth ychwanegol i'r dysgwyr gymryd rhan. Ewch ati os gwelwch yn dda i sôn wrth eich dysgwyr am yr holiadur.

# Gwasanaeth prawf ddarllen

Er mwyn annog elusennau i ddefnyddio'r Gymraeg, mae Comisiynydd y Gymraeg yn cynnig gwasanaeth prawf ddarllen am ddim. Gall elusennau a busnesau anfon hyd at fil o eiriau at Gomisiynydd y Gymraeg i'w prawf ddarllen, a chaiff y gwaith ei ddychwelyd o fewn 3 diwrnod gwaith. Cysylltwch â hybu@comisiynyddygymraeg.cymru am fwy o wybodaeth.

# Cwrs preswyl i ddysgwyr, Gwersyll yr Urdd Glan-llyn



Beth am annog eich dysgwyr i dreulio penwythnos yng Ngwersyll yr Urdd, Glan-llyn? Bydd cyfle iddynt gymdeithasu, mwynhau gyda dysgwyr eraill, dysgu a defnyddio eu Cymraeg. Mae'n hawdd archebu lle - llenwch y ffurflen gais cyn 5 Mawrth a'i hanfon at y cyfeiriad isod, neu ffoniwch 01248 383928. Sieciau yn daladwy i Brifysgol Bangor.

**Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin,**
**Prifysgol Bangor,**
**Stryd y Deon,**
**Bangor,**
**LL57 1UT**

# Gweithdai Stifyn Parri

Bydd y cyflwynydd, Stifyn Parri, yn cynnal cyfres o weithdai ar draws Cymru i feithrin hyder dysgwyr, gan ddefnyddio sgript ymgom y dysgwyr Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Mae'r sesiynau isod i gyd yn agored i ddysgwyr Canolradd+.

| **Darparwr** | **Dyddiad ac amser** | **Manylion cysylltu yn lleol** |
|---|---|---|
| Dysgu Cymraeg y Fro | 28 Chwefror<br>Neuadd Hebron Hall, Cross Common Rd, Dinas Powys. CF64 4YB.<br>10.30-12.30 | Suzanne Condon<br>scondon@valeofglamorgan.gov.uk |
| Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain | 13 Mawrth<br>Canolfan Fusnes, Coleg Cambria, Llaneurgain, CH7 6AA<br>1-3pm | Elin Roberts<br>Elin.roberts@cambria.ac.uk |
| Dysgu Cymraeg Gwent | 4 Mawrth<br>Blenheim Road, Cwmbrân NP44 4SY<br>6:30pm-9pm | Helen Young<br>Helen.young@coleggwent.ac.uk |
| Dysgu Cymraeg Morgannwg | 9 Mawrth<br>Canolfan Gartholwg, Pentre'r Eglwys CF38 1RQ<br>7pm-9pm | Helen Prosser<br>helen.prosser@dysgucymraeg.cymru<br>Ifan Dylan<br>Ifan.dylan@decymru.ac.uk |
| Dysgu Cymraeg Ceredigion – Powys – Sir Gâr | 26 Chwefror<br>Hen Goleg 1, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin Sant SA31 3EP<br>1-3pm | Siôn Meredith<br>stm@aber.ac.uk |
| Dysgu Cymraeg Ceredigion – Powys – Sir Gâr | 26 Chwefror<br>Ystafell 1.12, Adeilad Elystan Morgan, Campws Llanbadarn, Aberystwyth SY23 3AS<br>6-8pm | Siôn Meredith<br>stm@aber.ac.uk |
| Dysgu Cymraeg Sir Benfro | 25 Chwefror<br>Ystafell 6, Archifdy Sir Benfro yn Hwlffordd, SA61 2PE 11-1 | Dawn Bowen<br>Dawn.bowen@pembrokeshire.gov.uk |

Cymraeg Gwaith
Work Welsh

Mae 2019-20 wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus arall i gynllun Cymraeg Gwaith. I gloriannu a dathlu llwyddiant, bydd Digwyddiad a Gwobrau Cymraeg Gwaith yn cael ei gynnal ddiwedd mis Mawrth. Bydd y Digwyddiad yn gyfle i rannu diweddariad ar waith y Ganolfan a'r cynllun Cymraeg Gwaith, tra bydd Dysgwyr, Cyflogwr, a Thiwtor Cymraeg Gwaith yn cael eu gwobrwyo. Os dych chi ynghlwm â'r Cynllun eleni, gallwch gynnig enwebiadau a chofrestru ar gyfer y digwyddiad trwy ddilyn y dolenni ar y dudalen hon.

Yn ddiweddar, cynhaliwyd diwrnodau hyfforddiant i diwtoriaid Cymraeg Gwaith. Roedd hwn yn gyfle gwych i diwtoriaid yr amryw gynlluniau Cymraeg Gwaith ddod ynghyd i ddysgu, rhwydweithio a thrafod. Rhannodd y Ganolfan wybodeth am systemau monitro ac ansawdd cenedlaethol, a chafwyd cyfle i drafod atodiadau gweithle i gwrslyfrau cenedlaethol y Ganolfan. Mae Gweithdy i Gydlynwyr Cymraeg Gwaith ar y gweill y mis hwn hefyd – bydd cyfle i drafod pynciau gwahanol, gan gynnwys cefnogi cyflogwyr a chyhoeddusrwydd.I ddysgu mwy am y Cynllun Cymraeg Gwaith, cliciwch yma.

Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol




# Cylchlythyr i diwtoriaid
# Tymor yr Haf 2020

# Croeso

**Gair gan Efa Gruffudd Jones**
**Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**

“Dim ond diolch enfawr sydd gennyf i bawb sydd wedi addasu mor gyflym i ddefnyddio technoleg dysgu o bell. Diolch i bob tiwtor a darparwr cwrs, am eich ymrwymiad a’ch cefnogaeth i ddysgwyr. Dros yr wythnosau diwethaf, ’dyn ni wedi troi at ddulliau dysgu newydd ac wedi cyflwyno adnoddau digidol ychwanegol er mwyn rhoi’r cyfleoedd gorau i oedolion ddysgu ac ymarfer y Gymraeg adref. ’Dyn ni mor falch o allu cefnogi ein dysgwyr ar yr adeg yma – gyda’u dysgu, a hefyd o safbwynt eu lles, gan gynnig normalrwydd a chefnogaeth gymdeithasol. Mae'r sector cyfan wedi ymateb yn wych - gallwn fod yn falch iawn o'r hyn ’dyn ni wedi ei gyflawni gyda'n gilydd. ”

**Neges gan Eluned Morgan**
**Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol.**

“Mae pob un ohonon ni wedi bod yn aros gartref dros yr wythnosau diwethaf. Dyna’r peth iawn i’w wneud i ddiogelu’r system iechyd ac i achub bywydau. Diolch am wneud.

“Rwy’n gwybod fy hun bod aros gartref yn her. Ac ry’n ni i gyd wedi wynebu heriau dros yr wythnosau diwetha nad ydyn ni erioed wedi eu profi o’r blaen. Mae’r cyfnod diweddar wedi effeithio’n fawr ar y ffordd ry’n ni i gyd yn gweithio ac rwy’n wirioneddol ddiolchgar i chi gyd am symud mor gyflym i newid eich dulliau gwaith - a sicrhau darpariaeth dysgu Cymraeg ar-lein enfawr! Diolch am ymateb i’r her.

“Rwy’n gwybod hefyd eich bod chi wedi gweithio’n galed i addasu cynnwys cyrsiau, ac wedi dod i’r arfer â dulliau gwahanol o ddysgu yn gyflym iawn. Rwy’n deall nad oedd hynny’n beth hawdd. Ond mae’r dystiolaeth yn glir: pwy fyddai wedi meddwl ond ychydig wythnosau’n ôl y byddai cymaint o’r gymuned ddysgu yn mynychu dosbarthiadau ar-lein? Mae’n dangos beth mae modd ei wneud pan fydd gwir raid. Ac rwy’n siŵr y bydd yn talu ar ei ganfed i’r Gymraeg.

“Ac mae hyn i gyd yn fwy na jyst dysgu Cymraeg, er cyn bwysiced yw hynny wrth gwrs. Mae’n gyfnod rhyfedd. Ry’n ni i gyd wedi’n hynysu - ry’n ni i gyd yn gweld eisiau teulu, ffrindiau a chydweithwyr. Mae’r gwersi Cymraeg rydych chi’n eu cynnal yn gyfle gwych i bobl gadw cysylltiad gyda’r byd tu hwnt i’w cartrefi, ac yn gyfle i wneud ffrindiau newydd.

“Mae’r byd Dysgu Cymraeg yn dod â phobl at ei gilydd, a gyda’n gilydd ry’n ni’n well. Diolch am eich holl waith.”

# Cyrsiau cymunedol yn parhau

Mae’r cyrsiau cymunedol, a ddechreuodd fis Medi diwethaf a mis Ionawr eleni, wedi gallu parhau yn ystod y cyfnod ansicr yma a diolch i chi gyd am addasu i ddefnyddio llwyfannau cynadledda o bell, megis Zoom a Skype, i ddysgu eich myfyrwyr.  ’Dyn ni’n gwybod cymaint mae eich dysgwyr yn croesawu’r cyfle i barhau i ddysgu a chael eich cwmni chi a’u cyd-fyfyrwyr.  Diolch am annog pawb i ‘droi lan’ bob wythnos yn ôl yr arfer!




# Gwersi byw ar Facebook

Mae miloedd o ddechreuwyr wedi troi at wersi Cymraeg dyddiol, wedi’u ffrydio’n fyw ar dudalen Facebook y Ganolfan o ddydd Llun i ddydd Gwener am 3.00pm.  Mae’r gwersi 10 munud o hyd, sy’n cyflwyno geirfa a phatrymau syml a chyngor ar ynganu, wedi ennyn ymateb positif, gyda dysgwyr o Dubai a’r Ariannin yn ymuno â dysgwyr yng Nghymru i’w gwylio.



# Cyrsiau newydd ar gyfer y Gwanwyn

Bydd nifer ohonoch chi'n dysgu ar gyrsiau Dysgu Cymraeg newydd i ddechreuwyr sy'n dechrau ar 12 Mai. Mae'r cyrsiau 10-wythnos, 30 awr o hyd yn cyfuno dysgu o bell dan arweiniad tiwtor gydag astudiaethau ar-lein annibynnol. Dyma'r tro cyntaf i'r Ganolfan gyflwyno cyrsiau cyfunol cenedlaethol o'r math yma.

Mae'r ymateb i'r cyrsiau hyn wedi bod yn ardderchog, gyda dros 1,000 o ddysgwyr yn cofrestru ar gyfer 80 o ddosbarthiadau newydd.

# Adnoddau ychwanegol

Mae clipiau fideo yn cael eu cynhyrchu ar hyn o bryd, gan diwtoriaid ledled Cymru, i gyd-fynd â'r 1,500 o adnoddau fideo, sain a rhyngweithiol sy'n barod ar gael ar dysgucymraeg.cymru. Cofiwch hefyd am y cyrsiau blasu byrion ar-lein, sy'n cyflwyno Cymraeg llafar, ac mae cynlluniau ar y gweill i gyflwyno sesiynau 'blasu' ar gyfer rhieni a gofalwyr plant ifanc, a fydd hefyd yn cael eu ffrydio'n fyw ar Facebook.

# Llyfrau newydd i ddysgwyr

Yn dilyn llwyddiant y gyfres gyntaf o nofelau a llyfrau hamdden ar gyfer dysgwyr, 'Cyfres Amdani', bydd mwy o deitlau yn cael eu cyflwyno dros y misoedd nesaf. Mae'r llyfrau, sy wedi'u teilwra ar gyfer gwahanol lefelau'r sector Dysgu Cymraeg, yn ffrwyth prosiect ar y cyd rhwng y Ganolfan a Chyngor Llyfrau Cymru.

# Ar Lafar

Er nad yw'r ŵyl wedi'i chynnal eleni, 'dyn ni wedi casglu deunydd diddorol at ei gilydd gan Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Beth am bori tudalen Ar Lafar ar ein gwefan i ddysgu mwy am hanes Mina, sy'n dysgu Cymraeg yn y Llyfrgell Genedlaethol, a'r gwaith diddorol y mae hi'n ei wneud gyda hen ffilmiau? Gallwch wylio fideos gan gwmni Mewn Cymeriad sy'n cyflwyno hanes Hedd Wyn a Mari Jones, a gweld llun buddugol Carole Gowers o Gaernarfon, enillydd cystadleuaeth ffotograffiaeth Ar Lafar, a gafodd ei beirniadu gan y ffotograffydd Nick Treharne. Mae gyda Nick arddangosfa yn y Llyfrgell ar hyn o bryd. Mae Anni Llŷn hefyd wedi rhannu gweithdy barddoniaeth ar sianel YouTube Amgueddfa Cymru. Beth am rannu'r adnoddau yma gyda'ch dysgwyr?

# Scott Quinnell yn dysgu Cymraeg

“Mae dysgu Cymraeg wastad wedi bod yn rhywbeth o’n i’n meddwl gwneud, ond fe wnaeth ‘Iaith ar Daith’ roi’r hwb oedd ei angen arna i,” eglura Scott Quinnell, y cyn chwaraewr rygbi rhyngwladol, sy’n cymryd rhan yn y gyfres adloniant newydd ar S4C.

Mae Scott yn un o bum person enwog sy’n rhan o ‘Iaith ar Daith’. Mae Carol Vorderman, Ruth Jones, Adrian Chiles a Colin Jackson hefyd yn cymryd rhan. Darllenwch y cyfweliad yma gyda Scott ac ewch i wefan S4C am fwy o wybodaeth am y gyfres.

Mae 'Iaith ar Daith' yn cael ei darlledu bob nos Sul am 8.00pm ar S4C, gydag ailddarlledlad am 10.00pm ar nos Fercher. Cofiwch wylio!



*Yn y llun mae Scott Quinnell, gyda’i fentor ar y rhaglen, Sarra Elgan.*

# Adnoddau Cymraeg eraill ar-lein

Dyma rai enghreifftiau o'r hyn sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg i helpu'ch dysgwyr fwynhau ymarfer yn eu cartrefi:

Mae gwasanaeth Cyw i blant ifanc wedi lansio ap newydd.
Mae adnoddau dysgu ar-lein 'Selog' Mentrau Iaith Cymru yn cynnig amrywiaeth o dasgau i blant o bob oed drwy gyfrwng y Gymraeg.
Mae grŵp Miri Meithrin ar Facebook yn helpu rhieni â phlant bach gyda syniadau am weithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg.
Beth am gadw'n heini gyda chriw FFIT Cymru ar eu sianel YouTube neu arlunio gyda'r arlunydd Huw Aaron a'r Criw Celf?
Mae Theatr Genedlaethol Cymru hefyd yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau a pherfformiadau ar-lein i chi eu mwynhau. Ewch draw i'w gwefan i weld.